EUR 02-03(min)

**Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 6 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 14.00 |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Tom Middlehurst (Cadeirydd) | Llafur: Alun a Glannau Dyfrdwy |
| | Rosemary Butler | Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| | Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| | Mike German | Democrat Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru |
| | Rhodri Morgan | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| | Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| | Phil Williams | Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru |
| | **Gwahoddedigion Sefydlog** | |
| | Janet Davies AC | Pwyllgor y Rhanbarthau |
| | Rose D'Sa | ECOSOC |
| | Eluned Morgan | ASE |
| | **Gwahoddedigion** | |
| | Gareth Jones AC | Cadeirydd, Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| | Mr David Lynch | Biwro Rhyngwladol Llywodraeth Leol, Ysgrifenyddiaeth Cynrychiolaeth y DU ar Gyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Ewrop (CLRAE) |
| | **Hefyd yn bresennol** | |
| | Phil Bird | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| | Jackie Brown | Pennaeth yr Uned, Rhaglenni Ewropeaidd |
| | Gary Davies | Pennaeth, Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| | Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| | Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**<u>14.03- 14.05</u>**

**Eitem 1**

**Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig David Lynch o Ysgrifenyddiaeth Cyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Ewrop (CLRAE) a Gareth Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, a fyddai, ill dau, yn annerch y pwyllgor.

1.2 Daeth ymddiheuriadau i law wrth Nicholas Bourne AC, John Griffiths AC, Jonathan Morgan AC, yr ASEau Jill Evans, Jonathan Evans, Glenys Kinnock ac Eurig Wynn, ac wrth y gwr gwâdd sefydlog Glenn Vaughan.

**<u>14.05 – 14.14</u>**
**Eitem 2**
**Adroddiad y Gweinidog**
**Papur: EUR 02-03(p1)**

2.1 Ymhelaethodd y Dirprwy Brif Weinidog ar ei adroddiad ysgrifenedig.

2.2 Roedd hi'n Wythnos Cymru ac roedd y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog wedi mynychu digwyddiadau ym Mrwsel. Roedd llawer o bobl wedi mynychu digwyddiadau eleni, gan gynnwys derbyniad yn Senedd yr UE ddydd Llun 3 Mawrth a seminarau ar ddatblygu cynaliadwy, technoleg gwybodaeth a'r amgylchedd. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd gan y gwledydd sy'n ymgeisio a'r aelod wladwriaethau yn y seminarau yn dangos eu bod yn fuddsoddiad da o ran rhannu arbenigedd ac roedd pobl yn ystyried Cymru fel lle da i fynd i ddysgu gwersi. Nodwyd gwaith pawb, gan gynnwys Canolfan Ewropeaidd Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru.

2.3 Roedd dros 40 o wledydd wedi trefnu digwyddiadau i ddathlu Dydd Gwyl Dewi, ac un o'r rhai amlycaf oedd y penderfyniad i oleuo Adeilad yr Empire State yn Efrog Newydd â lliwiau baner Cymru. Roedd bwyd o Gymru wedi cael ei weini gan Gogyddion o Gymru a oedd wedi ennill gwobrau a nododd y Pwyllgor pa mor bwysig yw hybu allforion o Gymru.

2.4 Roedd y gweithgor Ehangu wedi cwrdd wythnos diwethaf ac roedd contract wedi cael ei ddyfarnu i ymgynghorwyr er mwyn eu cynghori ar sut i gynnwys pobl a sefydliadau allweddol o Gymru, a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael yn sgil ehangu. Byddai eu hadroddiad yn cael ei roi gerbron y gweithgor ar 29 Mawrth. Byddai'r grwp yn hysbysu'r Pwyllgor o'r canlyniad ac o ddyfodol y grwp. Roedd refferenda ar ehangu yn y gwledydd a oedd yn ymgeisio wedi cychwyn yr wythnos honno ym Malta, a byddai siâp yr UE ar ei newydd wedd yn hysbys ar ôl y refferendwm olaf yn Latfia ar 20 Medi.

**Pwynt Gweithredu:**

- Byddai adroddiad gan y Gweithgor Ehangu yn cael ei gyflwyno i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar ôl yr etholiadau.

**<u>14.14 – 14.37</u>**
**Eitem 3**
**Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes (ELL)**

3.1 Siaradodd Gareth Jones AC â'r Pwyllgor am ddimensiwn Ewropeaidd gwaith y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Dyma oedd prif bwyntiau ei gyflwyniad a'r drafodaeth:

3.2 Roedd gwaith â dimensiwn UE wedi bod yn gyfyngedig ond yn ddefnyddiol iawn a chanolbwyntiwyd, yn bennaf, ar ddefnyddio arferion gorau i lywio adolygiadau polisi. Er enghraifft, roedd y Pwyllgor wedi clywed gan arbenigwyr o Ganada am drefniadau i hybu dwyieithrwydd yn rhanbarthau Canada. Roeddent hefyd wedi ystyried profiad Gwlad y Basg, ac roedd y Gweinidog o'r herwydd wedi dyrannu arian ar gyfer cyfnodau sabothol i athrawon i wella eu sgiliau iaith yn seiliedig ar fodel Gwlad y Basg.

3.3 Roedd y Gweinidog hefyd wedi llofnodi memoranda dealltwriaeth â'i chymhreiriaid yn ardal Gwlad y Basg a Ciwba.

3.4 Yn ei hadroddiadau i'r Pwyllgor, roedd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau parthed datblygiadau sydd â dimensiwn Ewropeaidd,

er enghraifft cynnydd rhwydwaith Cymdeithas Ewropeaidd yr Awdurdodau Rhanbarthol ac Ewropeaidd dros Ddysgu Gydol Oes (EARLALL).

3.5 Yn y dyfodol, efallai y bydd yn bosibl cynnwys mwy o'r dimensiwn Ewropeaidd mewn gwaith ymchwil. Er enghraifft, roedd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar fin cyhoeddi adroddiad interim ar bolisi ar gyfer ysgol y dyfodol. Yn anffodus, nid yw wedi bod yn bosibl ymweld ag ardaloedd y tu allan i Gaerdydd oherwydd prinder amser, ond byddai aelodau wedi gwerthfawrogi cyfle i weld ysgolion cymunedol yng Ngogledd America, yr Alban a Sgandinafia. Byddai angen i'r Pwyllgor newydd feddwl sut mae bwrw ymlaen â hyn.

3.6 Roedd aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn gobeithio y byddai aelodau unigol o'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ymweld â gwledydd eraill er mwyn rhannu gwybodaeth a hyrwyddo'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru, yn enwedig o ran gwaith datblygu'r blynyddoedd cynnar. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gobeithio gweld aelodau'n ymweld yn amlach yn y dyfodol.

3.7 Nodwyd y gwahaniaethau o ran addysgu'r blynyddoedd cynnar mewn gwledydd Ewropeaidd eraill, er enghraifft Denmarc lle mae addysg ffurfiol yn dechrau'n hwyrach ond lle mae lefelau llythrennedd yn uwch. Roedd cynghorydd y blynyddoedd cynnar wedi cael ei benodi a'r gobaith oedd y byddai ei adroddiad yn tynnu sylw at arferion da y gellid eu mabwysiadu yng Nghymru, gan nad oedd y dilyniant yn y maes gwaith hwn wedi bod cystal ag oedd y Pwyllgor wedi'i obeithio.

3.8 Roedd y diffyg cynnydd o ran addysgu ieithoedd modern yng Nghymru yn peri pryder a gallai'r Pwyllgor Addysg ystyried arferion mewn rhannau eraill o Ewrop. Gallai hyn gynnwys ystyried faint sy'n manteisio ar y rhaglenni cyfnewid addysgol a'r gweithgareddau cyfnewid ysgolion ERASMUS, SOCRATES a Leonardo. Ymddengys fod llai o ddiddordeb yn y rhain erbyn hyn. Gobeithiwyd y byddai'r Pwyllgor Addysg newydd yn parhau i wneud ymchwil yn y maes hwn. Roedd llawer yn credu bod hybu dwyieithrwydd Cymraeg/Saesneg ymhlith plant ysgol iau yn ffordd bwysig o helpu plant i ddysgu ieithoedd eraill a ieithoedd modern yn gynt.

3.9 Holodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i ba raddau yr oedd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi ystyried cyllid gan yr UE drwy'r Rhaglenni Fframwaith i ddatblygu'r sector addysg. Nid oedd sylw'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi cael ei dynnu at hyn o'r blaen ond byddai'n bwysig monitro yn y dyfodol.

3.10 Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor ystyried modelau i hybu cyfranogiad dinasyddion a gwleidyddol mewn rhannau eraill o Ewrop. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y byddai'r fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn cael ei gyflwyno yn ysgolion Cymru ym mis Medi, a fyddai'n cynnwys cymryd penderfyniadau gan bobl ifanc ac ar eu rhan, ac roedd y Pwyllgor yn credu bod hyn yn ffordd o fynd i'r afael â dinasyddiaeth.

**Pwynt Gweithredu:**

- Croesawodd Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgol Gydol Oes sylwadau'r aelodau a byddai'n mynd â hwy yn ôl i'r Pwyllgor.

**<u>14.37 – 14.58</u>**

**Eitem 4**
**Cronfeydd Strwythurol yr UE ar ôl 2006: Ail Adroddiad Cynnydd y Comisiwn Ewropeaidd ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol**
**Papur: EUR 02-03(p2)**

4.1 Rhoddodd y Dirprwy Brif Weinidog y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar adroddiad diweddaraf Comisiwn yr UE ar y ddadl ar ddyfodol y cronfeydd strwythurol, gan gynnwys yr ystadegau diweddaraf ar gyfer yr ardaloedd Amcan 1 cyfredol.

4.2 Roedd Llywodraeth y DU wedi lansio ei dogfen ymgynghori ar ddyfodol Cronfeydd Strwythurol yr UE, 'A Modern Regional Policy for the United Kingdom', y diwrnod hwnnw. Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rheoli'r broses ymgynghori yng Nghymru, gan lansio'r broses ym mis Mawrth. Byddai'r cabinet newydd yn casglu barn budd-ddeiliaid ac yn paratoi'r ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 4 Gorffennaf, sef y dyddiad cau.

4.3 O ran cydlyniant, roedd cyfarfod diwethaf Comisiwn cydlyniant tiriogaethol Pwyllgor y Rhanbarthau wedi ystyried barn ddrafft ar a ddylid rhoi'r un sylw i gydlyniant tiriogaethol ag a roddir i gydlyniant economaidd a chymdeithasol. Roedd wedi ystyried sut y gallai polisi cydlyniant gael ei symleiddio ac roedd galw cryf am hyblygrwydd wrth weinyddu, h.y. y dylai Aelod-Wladwriaethau fel y DU gyda fframwaith rheoliadol da fod â dull ariannu sydd wedi'i symleiddio ar lefel yr Aelod-Wladwriaeth, tra dylai Aelod-Wladwriaethau eraill fel yr Eidal a Groeg barhau i gael system reoliadol gryfach. Byddai'r mater yn cael ei gyfeirio i gyfarfod llawn o Bwyllgor y Rhanbarthau ar 30 Ebrill.

4.4 Bu'r Pwyllgor yn trafod effaith ehangu ar allu gwledydd i gael cyllid ac argaeledd arian trosiannol, yr oedd disgwyl iddo fod yn well nag yn y cylchoedd ariannu cynharach o 1992-2000. Nododd y Pwyllgor fod y materion hyn ac ymarfer ymgynghori Llywodraeth y DU o'r pwys mwyaf i'r Cynulliad. Sicrhaodd y Dirprwy Brif Weinidog y Pwyllgor fod papur ymgynghori Llywodraeth y DU, “Modern Regional Policy for the United Kingdom”, yn cynnwys sicrhad na fyddai Cymru a rhanbarthau eraill ar eu colled o ganlyniad i awgrym y DU y dylai cyllid rhanbarthol yr UE gael ei anfon yn ôl i Aelod-Wladwriaethau.

4.5 Cydnabuwyd bod y Comisiwn yn awyddus i barhau â'i rôl o ran penderfynu ar gyllid ar sail amcanion. Cydnabuwyd hefyd fod peth o'r fiwrocratiaeth a oedd yn gysylltiedig â'r cyllid yn angenrheidiol er mwyn cynnal gwerthoedd a nodweddion allweddol cronfeydd strwythurol yr UE a diogelu rhag twyll, er bod llawer yn teimlo y gellid cymhwyso'r gofynion hyn i wahanol raddau, gan ddibynnu ar yr Aelod-Wladwriaeth.

4.6 Roedd cynrychiolwyr rhanbarthol, gan gynnwys Saxony, wedi cysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru i drafod gwahanol safbwyntiau a mentrau.

4.7 Roedd peth pryder y byddai ardaloedd Amcan 2 ar hyn o bryd yn llithro ymhellach i lawr y rhestr o ardaloedd sy'n gymwys i gael cyllid yn y dyfodol. Er bod dyfodol Amcan 1 i'w weld yn gymharol ddiogel, roedd Amcan 2 o hyd yn destun trafodaeth ac roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i uno sawl un o'r ffrydiau ariannu presennol. Nodwyd bod cynrychiolaeth dda o blith meiri dinasoedd mawr yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y pwnc ym mis Chwefror, a oedd yn lobïo am arian Amcan 2 i ardaloedd trefol Ewrop. Roedd peth pryder am effaith bosib newid o'r fath ar Gymru.

**Pwynt Gweithredu:**
- Byddai dogfen ymgynghori Llywodraeth y DU yn cael ei chylchredeg i aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.
- Byddai'r Pwyllgor Ewropeaidd newydd yn derbyn adroddiad yn y dyfodol ar ddogfen ymgynghori Llywodraeth y DU a gallai ystyried a ddylai lunio ei ymateb ei hun i'r ymgynghoriad.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n cymryd egwyl rhwng 14.58 a 15.14

**15.14 – 15.31**
**Eitem 5**
**Cyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Ewrop (CLRAE)**
**Papur: EUR 02-03(p3)**

5.1 Siaradodd David Lynch, Swyddog Hyrwyddo Polisi a Chymorth i Aelodau CLRAE â'r Pwyllgor am waith CLRAE a nododd mai Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd y weinyddiaeth ddatganoledig gyntaf i dderbyn adroddiad ar waith y sefydliad hwn. Roedd yn flin gan Alan Lloyd, aelod Cymreig CLRAE ac arweinydd cynrychiolaeth y DU, nad oedd yn gallu annerch y Pwyllgor am ei fod yn Azerbaijan yn monitro etholiadau i sefydlu democratiaeth leol, ond byddai'n hapus i fod yn bresennol yn y dyfodol i fynegi'i safbwynt fel aelod. Roedd cydbwysedd gwleidyddol cyffredinol ymhlith cynrychiolwyr y DU ac roeddent yn gwneud cyfraniad i bwyllgorau CLRAE.

5.2 Roedd CLRAE yn un o sefydliadau ffurfiol Cyngor Ewrop ac roedd wedi ymrwymo i sefydlu democratiaeth leol. Yn wahanol i'r UE, roedd Cyngor Ewrop yn sefydliad a oedd yn cynnwys Ewrop gyfan ac ymhlith ei aelodau roedd Twrci a Rwsia.  Nid oedd ganddo gyllideb i'w gwario.

5.3 Nodwyd y byddai dirprwyaeth y DU yn hoffi gweld mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y mae CLRAE yn cael ei weinyddu. Roedd mynychu cyfarfodydd yn Strasbourg yn cymryd amser, yn enwedig i'r rheini a oedd yn teithio o rannau ymylol Ewrop. Roedd y mandad o ddwy flynedd a oedd gan aelodau hefyd yn cyfyngu ar y gwaith o ddatblygu strategaeth a sicrhau dilyniant. Byddai Pennaeth presennol y Gyngres yn cael ei ddisodli'n fuan a byddai'r ddirprwyaeth gyfan yn cwrdd ym mis Ebrill i drafod newid cyfansoddiadol.

5.4 Roedd CLRAE yn gwneud cynnydd o ran drafftio Siartr ar gyfer hunan-lywodraeth ranbarthol. Byddai'r Siartr hon yn cael ei thrafod mewn cyfarfod ym mis Mawrth, a fyddai hefyd yn ystyried sut y gallai gyd-fynd â Siartr yr UE ar hunan-lywodraeth ranbarthol.

5.5 Ers datganoli, nodwyd bod y cysylltiadau rhwng ysgrifenyddiaeth CLRAE ac awdurdodau datganoledig wedi gwella ac roedd yn gallu cyfrannu at waith Pwyllgor y Rhanbarthau.

5.6 Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn hoffi clywed am waith CLRAE o bryd i'w gilydd.

**15.31 – 15.45**
**Eitem 6**
**Y Gynhadledd ar Ddyfodol Ewrop**
**Papurau: EUR 02-03(p4)**
**EUR 02-03(p5)**

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop. Byddai canlyniadau'r trafodaethau'n cael eu cyfleu i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a

oedd yn ganolog i'r gwaith negodi ar y Confensiwn, ac roedd yn flin ganddo nad oedd wedi gallu dod i'r Pwyllgor i drafod y mater yn uniongyrchol ag aelodau. Byddai'r Cadeirydd yn cwrdd ag ef ddydd Llun 10 Mawrth i gyflwyno barn y Pwyllgor.

6.2 Dywedodd y Diprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor na fyddai canlyniadau'r trafodaethau ar y Cytundeb yn hysbys tan yn hwyr yn y gwanwyn, ond roedd yn bwysig fod gan ranbarthau lais cryf yn y ddadl. Roedd Cymru wedi gallu dylanwadu ar y ddadl yn y cyfarfod diwethaf ar 7 Chwefror drwy safbwynt Llywodraeth y DU.

6.3 Roedd y DU am i'r cytundeb gynnwys cyfeiriadau at y canlynol: cydnabod pwsigrwydd rôl y rhanbarthau; cefnogi'r rôl ranbarthol parthed datganoli; ei gwneud yn orfodol ymgynghori â'r rhanbarthau; cael system rybuddio gynnar fel bod rhanbarthau yn gallu cyfrannu at y broses ddeddfwriaethol; gwella rôl Pwyllgor y Rhanbarthau.

6.4 Heblaw am waith Llywydd presennol Pwyllgor y Rhanbarthau, nodwyd na fyddai'n barod i ymgymryd â'r rôl ychwanegol yr oedd Llywodraeth y DU yn ei chynnig.

6.5 Nodwyd y byddai'r newidiadau i'r strwythurau Ewropeaidd yn gofyn am newidiadau yn y ffordd y mae'r Cynulliad yn delio â materion Ewropeaidd. Er enghraifft sicrhau bod y Cynulliad yn gallu monitro deddfwriaeth yr UE yn effeithiol. Byddai angen i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ystyried beth fyddai ei rôl fwyaf effeithiol.

6.6 Nodwyd bod un pwynt ym mhapur 5 yn cyfeirio at hawl y Cynulliad i apelio yn erbyn cyfraith yr UE, a dylid newid hwn i egluro ei fod yn ymwneud â'r hawl apel i'r Llys Cyfiawnder Ewropeaidd.

6.7 Cymeradwyodd y Pwyllgor bapur 5 gyda'r newid hwnnw.

**Pwynt Gweithredu:**

- Byddai Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn cyflwyno'r papur ynghyd â barn y Pwyllgor i'r Confensiwn i'r Gwir Anrhydeddus Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, mewn cyfarfod ddydd Llun 10 Mawrth.

**<u>15.45 – 15.50</u>**

**Eitem 7**

**Crynodeb o waith y Pwyllgor**

**Papur: EUR 02-03(p6)**

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried awgrymiadau ynghylch meysydd gwaith posibl ar gyfer y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol newydd.

7.2 Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol cymharu â gwaith y Pwyllgorau cyfatebol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, er mwyn nodi meysydd i'w datblygu.

7.3 Nodwyd y byddai'r strwythur staffio newydd ym Mrwsel yn darparu gwell adnoddau yn y dyfodol i hysbysu'r Pwyllgor o faterion sydd ar y gorwel.

7.4 Dylai gwaith ar ddiwygio cronfeydd strwythurol yr UE gael ei ychwanegu at y flaenraglen waith, yn enwedig datblygu cymorth rhanbarthol.

7.5 Dylid ystyried effaith ehangu ac effaith yr Ewro fel materion ar wahân.

7.6 Roedd y Pwyllgor yn falch o weld bod Rose D'Sa o ECOSOC wedi anfon Adolygiad Strategol Cyfraith yr UE 2003 ymlaen atynt. Dylai'r adolygiad gael ei ystyried hefyd wrth baratoi blaenraglen waith y Pwyllgor newydd.

**Pwynt Gweithredu:**

- Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r flaenraglen waith i'w hystyried gan y Pwyllgor newydd.

**15.50 – 16.00**
**Eitem 8**
**Adroddiad gan aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau**

8.1 Rhoddodd Aelodau o Bwyllgor y Rhabarthau y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar ddatblygiadau ers y cyfarfod diwethaf.

8.2 Yn ôl Rosemary Butler roedd maer pob prifddinas wedi cael gwahoddiad i Bwyllgor y Rhanbarthau ac roeddent i gyd wedi cyfrannu at drafodaeth ddiddorol.

8.3 Byddai drafftiau barn terfynol yn cael eu cylchredeg i Gadeiryddion a Gweinidogion perthnasol y Pwyllgorau ynghyd â'r wybodaeth a oedd yn cael ei darparu ar gyfer cyfarfodydd. Nodwyd nad oedd amser, bob tro, i anfon papurau at yr aelodau perthnasol cyn ffurfio barn.

8.4 Roedd Janet Davies wedi bod yn arsylwi ar gyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau. Roedd y cyfarfod yn trafod cydlyniant tiriogaethol, canlyniad trychinebau naturiol, cytundebau teiran a chapasiti meysydd awyr rhanbarthol. Roedd yn flin ganddi ei bod wedi gorfod colli'r eitem hon er mwyn dal yr hediad yn ôl. Roedd adroddiadau'r cyfarfod ar gael i aelodau â diddordeb.

**16.00 – 16.07**
**Eitem 9**
**Adroddiad gan Wahoddedigion Sefydlog**

9.1 Nododd Rose D'Sa o ECOSOC ddiddordeb yn y seminar datblygu cynaliadwy yn ystod Wythnos Cymru ac roedd barn arwyddocaol gan ECOSOC ar y mater ond nid oedd diffiniad clir gan yr UE o'r term 'datblygu cynaliadwy' – nid oedd dim wedi'i gytuno eto. Yn aml iawn, câi ei weld fel diffiniad amgylcheddol ac nid un cymdeithasol. Roedd meini prawf yr UE yn cyfeirio at 'gynaliadwyedd amgylcheddol'.

9.2 Ni allai Glenn Vaughan o Ganolfan Ewropeaidd Cymru fod yn bresennol am ei fod yn cymryd rhan yn nigwyddiadau Wythnos Cymru. Nododd y Pwyllgor y datblygiadau diweddaraf o ran cynrychiolaeth o Gymru ym Mrwsel. Roedd y ffyrdd gorau o gynrychioli'r Cynulliad yn cael eu hystyried gan Bwyllgor y Ty, ac roedd Canolfan Ewropeaidd Cymru wedi cael gwahoddiad i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor hwnnw ar y gwasanaethau y gallai hi eu cynnig.

**Pwynt Gweithredu:**

- Byddai'r Pwyllgor yn gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd am ei barn ar ddiffiniad addas o 'ddatblygu cynaliadwy'.

**16.07 – 16.09**
**Eitem 10**
**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
**Papur: EUR 01-03(min)**

10.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod diwethaf ar 30 Ionawr 2003.

10.2 Dyma oedd cyfarfod olaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar gyfer sesiwn cyntaf y Cynulliad. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau am eu cwrteisi ac i swyddogion am eu cymorth a'u cyngor. Diolchodd hefyd i'r gwahoddedigion

sefydlog, y Gweinidogion a'r Ysgrifenyddiaeth, a dymunodd y Cadeirydd yn dda i'r Pwyllgor newydd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 16.09pm.**